

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Brithdir  
Nos Fawrth, Mehefin 18, 2019 am 7:30 o'r gloch.**

**Presennol** Cynghorwyr: Peredur Jenkins, (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Rhun Prys Jones, Meurig Ashton, Gerallt Griffith, Barry Jones, Geraint Evans a Karen G. Goswell. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb oedd yn bresennol yn enwedig Karen G. Goswell y ferch gyntaf i fod yn gynghorydd ers Cassey Jones y Siop.

**2. Ymddiheuriadau:** Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams, Hugh A. Evans.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 21, 2019**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 21, 2019**

Eitem 11.b. Llythyrau ateb oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ar faterion codwyd gan yr aelodau sef:

1. Gordyfiant ar y ffordd rhwng Garreg Fawr a Bontnewydd h.y. rhwng y Gelli a Phant Ebolion cyn y troad i Ddolgellau. Mae'n creu rhwystr i gerbydau uchel fel bysus.

Mae Priffyrdd yn cytuno mae angen gwneud y gwaith.

2. Llythyr (23/5/2019) yn rhoi gwybod bydd angen asesu'r biniau halen a rhoi gwybod os bydd angen eu llenwi cyn y gaeaf.

Penderfynwyd i'r aelodau archwilio'r biniau i gael gwybod pa rai sydd angen eu llenwi ac iddynt roi gwybod yn ein cyfarfod mis Gorffennaf.

3. Gordyfiant coed/llwyni ar gyffordd A494 / Ysgol yn rhwystr i welediad clir tuag at y dwyrain

Mae Priffyrdd wedi anfon y mater ymlaen i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru am sylw.

4. Nid yw'r ffens rhwng y maes parcio gyferbyn â'r ysgol a'r afon yn ddiogel.

Mae'r mater wedi ei anfon ymlaen i Adran Addysgu.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 18, 2019

5. Angen symud bin halen wrth Penrhiw, Rhydymain i riw Hafod Owen, Hermon.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd.

6. Llythyr (23/5/2019) yn rhoi gwybod bydd yr Adran yn asesu'r gwastraff wal Sŵn yr Afon sydd wedi disgyn i'r pafin a chysylltu â'r perchennog i roi gwybod y perig sydd i ddefnyddwyr y ffordd.

Mae'r gwaith o glirio'r pafin wedi cael ei wneud.

7. Llythyr (23/5/2019) yn rhoi gwybod byddent yn gwneud gwaith o agor y gwter sydd wrth fynedfa Tyddynllywarch. Llythyr (11/6/2019) yn rhoi gwybod mae'n bosib fod BT wedi torri'r bibell wrth wneud gwaith.

Eitem 5, Eitem 8.c. Cafwyd cyfarfod gyda Mrs Nansi Thirsk ar 12/6/2019. Yr unig wybodaeth ymchwil sydd angen i gwblhau'r gwaith yw gwybod beth yw cyfansoddiad y Cyngor a sut cafodd enw'r Cyngor ei newid o The Parish Council of Llanfachreth i Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth.

Er gwybodaeth mae'r llwybr sy'n mynd heibio'r Ysgol ar Neuadd yn Llwybr Ceffylau (Bridleway).

## **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/5/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o 'Model Brocolol ar Gyfer Datrysiadau Anffurfiol' ar gyfer delio â chwynion lefel isel a dderbynnir o fewn y Cyngor, h.y. materion rhwng aelodau / swyddogion.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Model Brocolol.

b. Llythyr (25/5/2019) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch yn rhoi gwybod cynhelir rali geir y Clwb ar nos Sadwrn 22 / bore Sul 23, Mehefin 2019. Bydd y ceir yn cychwyn o Drawsffynydd am 10.00yh ac yna'n teithio 85 milltir ar hyd ffordd Meirionnydd

Mae pryder gan drigolion y gymuned nid oes digon hysbyseb yn cael ei roi i ddigwyddiad o'r fath a phenderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Clwb Moduro Harlech a'r Cylch i gael gwybod:

1. Beth yw eu trefn i gysylltu â thrigolion yr ardal mae'r rali yn mynd heibio.

2. Os mae'r ceir yn achosi difrod fel difrodi ffens neu wal a yw'r trefnwyr yn gyfrifol am eu hatgyweirio.

c. Llythyr (3/6/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cynhadledd Arfer Arloesol bydd yn cael ei gynnal ar Gorffennaf 10, 2019 yn Maes y Sioe Amaethyddol. Amgáu mae'r Agenda.

ch. Llythyr (4/6/2019) oddi Un Llais Cymru. Mae ganddynt 7 modiwl dysgu ar-lein ar gael ar eu gwefan i'w defnyddio gan gynghorydd. Y 7 modiwl yw: Cod Ymddygiad, Y Cyngor yn Gyflogydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Diogelwch, Sesiwn Gynefino, Cyllid Llywodraeth Leol, Deall y Gyfraith. Maent ar gael ar [http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/hyfforddiant\\_ar-lein\\_sylfaenol-16740.aspx](http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/hyfforddiant_ar-lein_sylfaenol-16740.aspx)

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (29/5/2019). Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar Ganllaw Cynllunio Atodol Drafft ymwneud a CCA 8: Llety Ymwelwyr. Maent yn darparu gwybodaeth bellach i gefnogi polisiau Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiadwyd ar 6/2/2019. Mae'r wybodaeth ar gael yn swyddfa Penrhyndeudraeth, llyfrgelloedd cyhoeddus, wefan <https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidence?name=> Os mae ymatebion maent eu hangen cyn 11/7/2019.

Awgrymwyd i'r aelodau edrych ar y ddogfen.

b. Cais cynllunio NP5/54/T139. Adfer nodweddion y tŷ gwreiddiol yn cynnwys tair dormer talcenog, ail godi cyrn mwg, adfer agoriadau ffenestri a gosod ffenestri traddodiadol sy'n codi'n fertigol, drws a ffram bren draddodiadol, ychwanegu ffenestri to ac agoriad ffenestr newydd ar dalcen Gogleddol yn cynnwys gwaith strwythurol mewnol i gynnal ac adfer y llawr cyntaf. Hendre Ffridd Y Mynach, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

## **8. Materion Ariannol**

a. Derbyniwyd adroddiad Archwiliad Mewnol (13/6/2019). Dyma'r farn yr Archwiliad:

Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

Methiant i adnabod lleoliad asedau'r Cyngor ar y gofrestr asedau.

Methiant i sefydlu gwefan sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel sydd yn ofynnol o dan Adran 35 a 81 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru).

Anfonwyd copi o'r Adroddiad i'r aelodau.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda'r Archwilydd Mewnol i gael gwybod pa wybodaeth angenrheidiol sydd ddim ar y wefan.

Rhoddydd 'Hysbysiad o bennau dyddiad ar gyfer hawliau etholwyr' ar hysbysfyrdau y gymuned ac ar wefan y Cyngor.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 18, 2019

Arwyddodd y Cadeirydd Ffurflen Flynyddol cwblhawyd gan yr Archwilydd (gweler Cofnodion Mai 21, 2019, Eitem 8.d.).

b. Llythyr (76/2019) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhyd-y-main yn diolch am ein rhodd o £500.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mai, 2019: £1,138.94.

d. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2019: £4,008.50.

**9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau â Chyngor Gwynedd i gael gwybod beth yw eu polisi ynglŷn â'r afiechyd sy'n taro coed ynn.

a. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â thrin knotweed.

**10. Unrhyw fater arall**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd mae angen:

1. gât a phostyn newydd ar y llwybr o Neuadd Rhydymain i'r ffordd A494. Mae'r gât a'r postyn presennol wedi torri.

2. angen rhoi sylw i gatiâu ar lwybr rhif 61 o Ochr-y-Foel i'r ffordd. Mae gât mochyn (kissing gate) wedi disgyn ar un pen o'r llwybr a gât arall ar ochr arall o'r llwybr ddim yn cau yn gywir.

-----

Llofnod:

Dyddiad: